



Nos Iau, 18 Medi 2025 – 7.30yh
Festri Salem, Penmachno

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd **nos Iau 18 Medi 2025**
am 7.30, Festri Salem, Penmachno

1. Croeso ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb
2. Datganiad o Fuddiant
3. Derbyn Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf
4. Adroddiad a diweddariad am gynllun tai Bro Machno
5. Trwsio'r wal ym Mynwent Arwelfa
6. Materion yn Codi o'r Cofnodion Blaenorol (nid fel arall ar yr agenda)
7. Gohebiaeth
8. Adroddiad Cyllidol
9. Materion Cynllunio
10. Materion eraill

Presennol:

Claire Roberts
Dafydd Gwyndaf
Daniel Tomos (Clerc)
Dylan Davies (Is Gadeirydd)
Eifion Davies
Eryl Owain (Cadeirydd)
Geraint Thomas
Wil Edwards
Dilwyn Roberts (Cynghorydd Sir)
Arfon Hughes (Cynllun Tai Bro Machno)

Ymddiheuriadau:

Bethan Corrigan
Owen Davis

Datganiad o fuddiant

Nid oedd unrhyw ddatganiadau

Minutes of a meeting held on **Thursday 18 September 2025** at 7.30, Salem Vestry, Penmachno

1. Welcome and Apologies for Absence
2. Declaration of Interest
3. Receive the Minutes of the Last Meeting
4. Report and update on the Bro Machno housing scheme
5. Repair the wall in Arwelfa Cemetery
6. Matters Arising from Previous Minutes (not otherwise on the agenda)
7. Correspondence
8. Financial Report
9. Planning Matters
10. Other matters

Present:

Claire Roberts
Dafydd Gwyndaf
Daniel Tomos (Clerc)
Dylan Davies (Deputy Chairperson)
Eifion Davies
Eryl Owain (Chairperson)
Geraint Thomas
Wil Edwards
Dilwyn Roberts (County Councillor)
Arfon Hughes (Bro Machno Housing Scheme)

Apologies:

Bethan Corrigan
Owen Davis

Declaration of interest

There were no declarations

Derbyn cofnodion y cyfarfod diwethaf

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod **10 Gorffennaf 2025** fel rhai cywir, Dylan Davies yn cynnig a Claire Roberts yn eilio.

Adroddiad a diweddariad am gynllun tai Bro Machno

Rhoddodd Arfon Hughes ddiweddariad am y prosiect ac atebodd gwestiynau gan gynghorwyr. Adroddwyd bod cyfarfod cyhoeddus wedi'i gynllunio ar gyfer 24 Medi. Trafodwyd tafarn yr Eagles – Tŷ Uchaf. Am 8pm, gadawodd Arfon y cyfarfod.

Trwsio'r wal ym Mynwent Arwelfa

Adroddwyd bod y Clerc wedi llwyddo i gael grant ar gyfer y gwaith. Nid oedd y contractwyr gwreiddiol yn gallu cwblhau'r gwaith erbyn y dyddiad cau ar gyfer talu'r grant ond roedd tri chontractwr newydd wedi dangos diddordeb. Byddai cyfarfod pellach yn cael ei drefnu i benodi contractwr pan fyddai'r Clerc wedi derbyn dyfynbrisiau.

Mynegwyd diolch i Cyril, Pen-y-bryn am roi o'i amser i gynnal a chadw rhan o Fynwent Arwelfa yn garedig iawn am flynyddoedd lawer.

Materion yn codi:

SP Energy: Adroddwyd bod y gwaith wedi cael ei ohirio. Penderfynwyd ysgrifennu at y contractwyr i fynegi siom y cyngor ac i ofyn iddynt wneud pob ymdrech i sicrhau bod y gwaith bellach yn cael ei gwblhau'n llwyddiannus.

Llwybrau Cyhoeddus: Adroddwyd bod CNC wedi cytuno i osod arwyddion a giât mochyn ar lwybr 49 i atal cerbydau rhag defnyddio'r llwybr.

To Stabl: Adroddwyd bod yr adran rheoli adeiladu wedi bod mewn cysylltiad â'r perchennog a bod y to bellach wedi'i dynnu i fwrdd.

Archwilio Cymru: Adroddwyd bod Archwilio Cymru wedi ysgrifennu at y cyngor ac nad yw'n cydnabod unrhyw gamwedd o hyd. Adroddwyd bod eu llythyr yn llawn anghywirdebau ond oherwydd nad yw corff annibynnol yn delio â chwynion, nid oedd pwynt mynd â'r mater ymhellach. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn dal i ymchwilio.

Llygredd afon Machno: Adroddwyd bod cyfarfod wedi'i gynnal gyda Dŵr Cymru sy'n bwriadu gwario £5.3 miliwn

Confirmation of the minutes

The minutes of the **10 July 2025** meeting were accepted as a true record, proposed by Dylan Davies and seconded by Claire Roberts.

Update and report on the Bro Machno housing project

Arfon Hughes gave an update about the project and answered questions from councillors. A public meeting was due to take place on 24 September. The Eagles pub was discussed. At 8pm, Arfon left the meeting.

Fixing the wall at Arwelfa Cemetery

It was reported that the Clerk had been successful in obtaining a grant for the works. The original contractors were unable to complete the work by the grant payment deadline but three new contractors had shown interest. A further meeting would be arranged when the Clerk had received quotes.

Thanks were expressed to Cyril, Pen-y-bryn for giving his time to very kindly maintaining part of Arwelfa Cemetery for many years.

Matters arising:

SP Energy: It was reported that works had been delayed. It was decided to write to the contractors to express the council's disappointment and to ask that every effort is made to ensure that the works are now completed successfully.

Public Footpaths: It was reported that NRW have agreed to put up signs and a kissing gate on footpath 49 to prevent vehicles from using the path.

Stable Roof: It was reported that the building control department had been in contact with the owner and that the roof has now been removed.

Audit Wales: It was reported that Audit Wales had written to the council and still does not acknowledge any wrong-doing. It was reported that their letter was full of inaccuracies but because complaints are not dealt with by an independent body, there was no point taking the matter further. The Welsh Language Commissioner is still investigating.

Pollution of the river Machno: It was reported that a meeting had taken place with Dŵr Cymru who intend to

i drwsio'r problemau gyda'r cyfleuster yng Nghwm Penmachno.

Partïon yn y Goedwig: Adroddwyd bod yr heddlu wedi bod yn monitro'r goedwig.

Pont Llan, Pont Ceunant ac ati: Adroddwyd bod angen gwaith gan y Cyngor Sir ar nifer fawr o bontydd yn yr ardal. Cytunodd Dilwyn Roberts yn garedig i godi'r mater gyda nhw ar ran sawl cyngor cymuned.

Gohebiaeth

Dim byd sydd angen sylw.

Adroddiad Cyllidol

Darparodd y Clerc restr o'r holl drafodion ariannol ers y cyfarfod diwethaf i'w dadansoddi. Cytunwyd bod popeth mewn trefn.

Materion Cynllunio

Nid oedd unrhyw geisiadau newydd.

Materion eraill

Toiled Cyhoeddus: Adroddwyd bod rhywun wedi gadael y tap poeth yn rhedeg dros nos. Penderfynwyd prynu tapiau hunan-gau.

Cae chwarae – Cwm Penmachno: Adroddwyd nad oedd y glaswellt wedi'i dorri. Dilwyn i godi'r mater gyda'r cyngor sir.

Pen-y-bont: Adroddwyd bod cwlferth wedi'i flocio. Penderfynwyd trefnu cyfarfod safle gyda'r cyngor sir a CNC.

Llysiau'r Gingroen: Adroddwyd bod llysiau'r gingroen yn tyfu ar ochrau'r ffyrdd. Penderfynwyd adrodd y mater i'r cyngor sir.

Tŷ i'w Rhentu: Adroddwyd bod 13 Bron y Waen yn dal heb denant. Penderfynwyd cysylltu â Cartrefi Conwy.

Atgyweiriadau Ffordd: Adroddwyd bod angen atgyweirio'r ffordd ger Ysgwyfrith, hefyd o fynedfa Pen-y-bryn tuag at Gadlas Ddol / man cychwyn y llwybrau beicio mynydd a ger y gilfach fawr ar ben Ffordd Grenyn. Penderfynwyd adrodd y mater i'r cyngor sir.

spend £5.3 million fixing the problems with the facility in Cwm Penmachno.

Forest Raves: It was reported that the police have been monitoring the forest.

Pont Llan, Pont Ceunant etc: It was reported that a large number of bridges in the area need attention from the County Council. Dilwyn Roberts kindly agreed to raise the matter with them on behalf of several community councils.

Correspondence

Nothing requiring attention.

Financial Report

The Clerk provided a list of all financial transactions since the last meeting for analysis. It was agreed that everything was in order.

Planning

There were no new applications.

Other matters

Public Toilet: It was reported that somebody had left the hot tap running overnight. It was decided to purchase self-closing taps.

Playground – Cwm Penmachno: It was reported that the grass had not been cut. Dilwyn to raise the matter with the county council.

Pen-y-bont: It was reported that there was a blocked culvert. It was decided to organise a site meeting with the county council and NRW.

Ragwort: It was reported that ragwort was growing at the sides of the roads. It was decided to report the matter to the county council.

House to Rent: It was reported that 13 Bron y Waen is still without a tenant. It was decided to contact Cartrefi Conwy.

Road Repairs: It was reported that the road needs repair near to Ysgwyfrith, also from the entrance to Pen-y-bryn towards Gadlas Ddol / the start of the mountain bike tracks and near the large layby at the top of Grenyn Road. It was decided to report the matter to the county council.

Giât yr Eglwys: Adroddwyd bod angen gwaith ar giât yr eglwys. Penderfynwyd cael pris gan y contractwr a ddewiswyd i atgyweirio wal Mynwent Arwelfa.

Bws Ysgol: Adroddwyd bod plant yn dal i orfod sefyll ar y bws ysgol oherwydd diffyg seddi. Penderfynwyd adrodd y mater i'r cyngor sir a'r pennaeth.

Coeden Nadolig: Cytunwyd y byddai coeden Nadolig yn cael ei phrynu a bod arian eisoes wedi'i neilltuo.

Cyfarfod nesaf

Cynhelir cyfarfod nesaf y cyngor nos lau 13 Tachwedd 2025, 7.30 yn festri Capel Salem.

Church Gate: It was reported that the church gate needs work. It was decided to obtain a price from whichever contractor is chosen to repair the Arwelfa Cemetery wall.

School Bus: It was reported that children are still having to stand on the school bus due to a lack of available Seats. It was decided to report the matter to the county council and the headteacher.

Christmas Tree: It was agreed that a Christmas tree will be purchased and that funds had already been set aside.

Next meeting

The next meeting of the council will be held on Thursday 13 November 2025, 7.30 at Capel Salem vestry.